

Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Mehefin 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/5663>

212

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 6 gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

Pwynt o Drefn

Dechreuodd yr eitem am 15.09

Cododd Mark Reckless bwynt o drefn ynghylch nifer y cwestiynau llefarwyr a ddyrennir i grŵp newydd Plaid Brexit. Ailadroddodd y Llywydd bod y dyraniad o gwestiynau arweinwyr a llefarwyr yn cael ei wneud yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd a'i bod wedi penderfynu rhoi yr un dyraniad i'r grŵp newydd Plaid Brexit ag yr oedd gan y grŵp UKIP yn fwyaf diweddar. Ychwanegodd y Llywydd bod dyraniadau yn adlewyrchiad o gydbwysedd cyffredinol ac nid yn wyddoniaeth fanwl na chyfrif pro-rata.



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.10

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y comisiwn arbenigol a gaiff ei benodi o ran coridor yr M4 o amgylch Casnewydd?

4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.42

Gwnaeth Darren Millar ddatganiad am – Coffáu 75 mlynedd ers y glaniadau D-Day yn Normandi.

Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)

Dechreuodd yr eitem am 15.44

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

NDM7063 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.13(ii), yn ethol Caroline Jones (Plaid Brexit) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
14	0	2	16

Oherwydd y cafodd y Cynnig ei gefnogi gan ddau draean o'r Aelodau a oedd yn pleidleisio, derbyniwyd y Cynnig.

5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dechreuodd yr eitem am 15.44

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM7058 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod pedair blynedd ar 8 Mehefin 2019 ers i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael ei roi mewn mesurau arbennig.
2. Yn nodi ymhellach bod y trefniadau mesurau arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn gyson o dan oruchwyliaeth y Gweinidog Iechyd Cyfredol.
3. Yn gresynu at y ffaith bod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr welliannau sylweddol i'w gwneud o hyd o ran ei wasanaethau iechyd meddwl ac o ran ei lywodraethu, ei arweinyddiaeth a'i oruchwyliaeth, er gwaethaf treulio mwy o amser mewn mesurau arbennig ar gyfer y materion hyn nag unrhyw sefydliad yn hanes y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
4. Yn galw ar y Gweinidog Iechyd i dderbyn ei gyfrifoldeb am fethu â chyflawni'r gwelliant gofynnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dros y pedair blynedd diwethaf ac ymddiswyddo.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
20	4	28	52

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)

Dileu pwyntiau 2, 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn cydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud yn y meysydd cychwynnol y nodwyd eu bod yn peri pryder yn 2015, a'r ffocws a'r gwelliant sy'n ofynnol o hyd er mwyn i'r statws uwchgyfeirio gael ei ostwng.

Yn nodi y bydd unrhyw benderfyniadau ynghylch newid statws uwchgyfeirio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael eu gwneud ar ôl cael cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Phrif Weithredwr GIG Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
32	0	20	52

Derbyniwyd gwelliant 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

NDM7058 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod pedair blynedd ar 8 Mehefin 2019 ers i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael ei roi mewn mesurau arbennig.
2. Yn cydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud yn y meysydd cychwynnol y nodwyd eu bod yn peri pryder yn 2015, a'r ffocws a'r gwelliant sy'n ofynnol o hyd er mwyn i'r statws uwchgyfeirio gael ei ostwng.
3. Yn nodi y bydd unrhyw benderfyniadau ynghylch newid statws uwchgyfeirio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael eu gwneud ar ôl cael cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Phrif Weithredwr GIG Cymru.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
32	0	20	52

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

6 Dadl Plaid Cymru – Refferendwm cadarnhau gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dechreuodd yr eitem am 16.46

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM7059 [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datgan ei gefnogaeth ddiamwys i refferendwm cadarnhau ar ba delerau bynnag a gynigir gan unrhyw Brif Weinidog bod y

Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, a bod opsiwn ar y papur pleidleisio i barhau yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
36	0	16	52

Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Trechu Tlodi

Dechreuodd yr eitem am 17.58

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

NDM7029 [John Griffiths \(Dwyrain Casnewydd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth trechu tlodi, gyda chyllideb a chynllun gweithredu manwl ar gyfer gweithredu.
2. Yn galw ar y Prif Weinidog i egluro'r meysydd cyfrifoldeb ar gyfer trechu tlodi ym mhob portffolio gweinidogol.
3. Yn cydnabod ac yn llywio atebolrwydd ar gynnydd a wneir ar yr agenda trechu tlodi.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
39	12	0	51

Derbyniwyd y cynnig.

8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 19.07

9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 19.11

NDM7060 [Joyce Watson \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#)

Dad-ddofi Tir Cymru: yr achos dros anadlu bywyd i'n tirweddau a'n cymunedau gwledig ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.30

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2019